Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru Welsh Government Warm Homes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Newid cyflenwr ynni

Dengys ymchwil y gall y cwsmer cyffredin arbed hyd at £300 y flwyddyn drwy newid cyflenwr ynni. Nid yw cyflenwyr ynni yn dueddol o wobrwyo teyrngarwch, felly gall newid cyflenwr eich helpu i ddod o hyd i dariffau rhatach ac arbed arian i.

Alla i newid cyflenwyr ynni os oes gen i fesurydd rhagdalu?

Gallwch, mae'n bosib newid cyflenwyr ynni hyd yn oed os oes gennych fesurydd rhagdalu. Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr yn cynnig o leiaf un tariff rhagdalu, felly mae'n werth gweld a allwch arbed arian drwy newid cynlluniau mesurydd rhagdalu.

Os bydd arnoch arian i'ch cyflenwr ynni bod gennych fesurydd rhagdalu gallwch newid i gyflenwr newydd o hyd ar yr amod bod llai na £500 yn ddyledus gennych a'ch bod yn talu'r ddyled.

Fel arfer, mae tariffau rhagdalu yn ddrutach, felly mae'n bosib y byddwch am holi ynghylch yr opsiynau gwahanol sydd ar gael i chi, yn cynnwys a allwch newid i fesurydd safonol. Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr yn cynnig hyn am ddim, ond gall rhai godi tâl arnoch.

Sut y gallaf ddod o hyd i'r cynnig gorau?

Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i gael cynnig ynni da yw dod o hyd i'r cyflenwr trydan neu nwy gorau yn eich ardal chi. Gellir gwneud hyn yn hawdd drwy ddefnyddio un o'r gwefannau cymharu prisiau a achredir gan Ofgem:

- UK Power
- Simply Switch
- Quotezone
- uSwitch
- Unravel It
- Runpath
- Energylinx
- Money Supermarket
- My Utility Genius
- Switch Gas and Electric
- Energy Helpline
- The Energy Shop

Pa wybodaeth sydd ei hangen arnaf i newid fy nhariff neu fy nghyflenwr ynni?

Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch i ddechrau newid cyflenwyr ynni:

- Eich cod post.
- Cyflenwr nwy a thrydan presennol, ac enw eich tariff (edrychwch ar eich bil diweddaraf neu cysylltwch â'ch cyflenwr).
- Faint rydych chi'n ei wario (neu'n ei ddefnyddio mewn oriau cilowat - kWh) ar nwy a thrydan. Gallwch ddod o hyd i hyn ar eich biliau diweddaraf neu eich datganiad ynni blynyddol a anfonir gan eich cyflenwr.
- Sut yr hoffech dalu gyda chyflenwr ynni newydd. Mae taliadau Debyd Uniongyrchol neu ar-lein fel arfer yn rhatach na thalu drwy siec neu fesurydd rhagdalu.
- Eich manylion banc os byddwch yn penderfynu newid ac am dalu drwy ddebyd uniongyrchol.

A fydd newid cyflenwr yn effeithio ar fy nghyflenwad trydan?

Bydd eich cyflenwr ynni newydd yn trefnu'r newid, gan sicrhau nad oes unrhyw amharu ar eich cyflenwad ynni.

Yr unig bethau fydd angen i chi eu gwneud yw:

1. Talu bil terfynol eich hen gyflenwr
2. Canslo unrhyw Ddebyd Uniongyrchol sydd gennych gyda'ch hen gyflenwr
3. Cyflwyno darlleniad mesurydd terfynol

Dylech fod wedi newid yn gyfan gwbl o fewn pedair i chwe wythnos.

Cysylltwch â Nyth ar Rhadffôn
0808 808 2244
i weld sut y gallwn eich helpu chi

Ewch i **nyth.llyw.cymru** am fwy o wybodaeth